

## **CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 18 Hydref, 2016 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Aled Roberts, Geraint Thomas, Eryl Owain, Dewi Jones, Colin Jones ac Eifion Davies.

Hefyd yn bresennol roedd Gareth Wyn Griffiths, ysgrifennydd Elusen Bro Machno

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r pwyllgor ar 11 Awst, 2016 fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Toiledau** – dal i ddisgwyl ymateb gan Gyngor Sir Conwy i gael gwybod pam bod y gwaith yn cymryd cymaint o amser.

**Materion Ffyrdd** – nodwyd nifer o faterion sydd angen sylw: gwter ger Bron Dderw, arwydd 30 milltir yr awr angen ei adnewyddu, carreg yn rhydd ar bont Llan a choed ar ffordd Tŷ Mawr.

Hefyd penderfynwyd cefnogi cais am wneud lle addas i ddefnyddio cadair olwyn yng Nghwm Penmachno.

**Maes parcio ger Capel Salem** – cadarnhawyd bod y gwaith wedi ei gwblhau i safon derbyniol iawn. Trafodwyd yr angen i farcio llefydd parcio penodol ond cytunwyd y byddai hynny'n amhosibl oherwydd natur yr arwyneb.

**Maes parcio ger yr Hen Ysgol** – penderfynwyd drefnu cyfarfod ar y safle gyda chynrychiolwyr o Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa i gytundeb ar wella'r cyfleusterau parcio.

**Llwybrau** – cytunwyd bod angen torri'r gwrych ar Lwybr y Waen – gofyn i John Burton wneud y gwaith. Hefyd gofyn i'r Brodyr Roberts, Pen-y-ffridd gwblhau'r gwaith ar Lwybr Blaen-y-cwm.

**Mynwentydd** – derbyniwyd adroddiad bod wal Mynwent Arwelfa yn gwyro a penderfynwyd bod angen cadw golwg ar gyflwr y wal dros y misoedd nesaf.

**Coed Nadolig** – penderfynwyd cysylltu â'r Comisiwn Coedwigaeth ynglŷn â chael coed Nadolig i Cwm ac i Benmachno.

**Adolygiad o safleoedd adeiladu** – adroddodd y clerc ei fod wedi cwblhau'r ffurflenni a'u dychwelyd at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Ceisiadau Cynllunio** – penderfynwyd nad oes wrthwynebiad i'r cais ar gyfer estyniad yn Hen Gapel Ebeneser.

Cafwyd adroddiad gan y clerc ar sefyllfa ddiweddaraf cynllun Trydan Dŵr Ffos Noddyn.

**Materion Ariannol** – Derbyniwyd adroddiad ariannol gan y clerc a phenderfynwyd bod arian digonol i'r cyngor fedru gweithredu'n effeithiol.

Adroddodd y clerc bod yr Archwiliad Ariannol Blyneddol wedi ei gadarnhau'n gywir ond bod llawer o broblemau gyda'r cwmni newydd sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.